Urdd

**P-04-607 Call for the Welsh Government to Purchase Garth Celyn – Additional information submitted by third party**

William Powell, Aelod Cynulliad,

Cadeirydd Pwyllgor Deisebu,
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Annwyl Syr

Ysgrifennaf atoch ynglŷn a dyfodol Garth Celyn, cartref hanesyddol Tywysogion Cymru yn Abergwyngregyn.

Ers nifer o flynyddoedd bellach bum yn tywys criwiau o bobl ifainc yn enw Urdd Gobaith Cymru yn flynyddol ar daith i Ogledd Cymru i ddysgu am ein hanes a'n hetifeddiaeth fel rhan o'u cwrs lefel A Cymraeg ail iaith. Fel rhan o'r cwrs maent yn astudio ddrama Saunders Lewis – SIWAN.

Mae Kathryn Gibson, perchennog Garth Celyn, sydd hefyd yn hanesydd o bwys, wedi roi blynyddoedd o'i hoes i wneud ymchwil manwl a chynhwysfawr ar hanes Garth Celyn. Mae hi wedi profi tu hwnt i bob amheuaeth taw dyma oedd pencadlys Tywysogion Cymru. Mae haneswyr eraill yng Nghymru a nifer fawr o unigolion a chyrff ein gwlad wedi ategu'r ymchwil yma a nodi pwysigrwydd yr adeilad hynafol yma yn ein hanes.

Mae Kathryn wedi bod yn agor drysau ei chartref a chroesawu pobl o bob oed o bob cwr o Gymru a thu hwnt i mewn i'w chartref ers 1988 ac mae ei hymrwymiad i adrodd cefndir pwysig Garth Celyn yn unigryw a gwerthfawr. Mae hanes Tywysogion Cymru yn hynod o bwysig ac fe ddylai phob ysgol yng Nghymru fod yn trosglwyddo'r darn pwysig yma o'n hanes i genedlaethau'r dyfodol.

Trist iawn felly oedd clywed fod ddyfodol Cartref ein Tywysogion yn afantol a braf oedd clywed am ymgyrch Kathryn i sicrhau dyfodol y tŷ. Credaf yn gryf fod gan cyrff megis CADW, Comisiwn Henebion Cymru, Cyngor Gwynedd ac yn sicr Cynulliad Cenedlaethol Cymru dyletswydd i sicrhau dyfodol Garth Celyn i'r cenedlaethau a ddaw.

Edrychaf ymlaen at glywed canlyniad y drafodaeth yn y Pwyllgor Deisebu yn y Cynulliad ar 24 Chwefror 2015 a mawr obeithio taw dechrau yn unig yw hyn ac y bydd Cynulliad Cenedlaethol

Cymru yn sicrhau fod Garth Celyn yn cael ei warchod a'i datblygu fel safle o bwys hanesyddol i bawb yng Nghymru yn y dyfodol agos.

Yr eiddoch yn gywir

Helen Greenwood,
Swyddog Datblygu Rhanbarth Gwent,
Urdd Gobaith Cymru

**Swyddfa'r Urdd (Rhanbarth Gwent),Ty'r Ysgol, Stryd Holland, Glyn Ebwy, Blaenau Gwent. NP23 6HT.**
**Ffôn: 01495 350155 / Ffacs: 01495 306867.E-bost: HelenG@Urdd.org**

Cadeirydd: **Tudur Dylan Jones**
Prif Weithredwr: **Efa Gruffudd Jones**

**Cwmni Urdd Gobaith Cymru**, Rhif Cwmni: 263310,
Cwmni Cyfyngedig, Cofrestrwyd yng Nghymru,
Elusen Gofrestredig Rhif 524481